




Masnachu Mentrus



Busnesau Byrlymus

Syniadau ar gyfer Busnesau Byrlymus



Wrth feddwl am syniadau ar gyfer eich busnes, ystyriwch y cwestiynau isod:

1. Oes gennych y sgiliau a'r adnoddau mae eu hangen arnoch chi i greu eich cynnyrch neu gynnig eich gwasanaeth?
2. A fydddech yn medru cael gafael ar yr adnoddau addas yn hawdd?
3. A fyddai'n gynnwys neu wasanaeth costus i'w greu neu ei gynnig?

Dyma restr o rai syniadau posib. Allwch chi feddwl am rai eraill?

Gwneud a Gwerthu

Bathodynau Cardiau

Llyfrnodau Calendrau

Casglu a phecynnu

Bylbiau/Hadau

Pecynnau o offer ysgrifennu

Prynu, addurno a gwerthu

Bylbiau Bwyd adar

Canhwyllau Planhigion

Gwasanaethau

Parti Bore Coffi

Noson Gwis Golchi ceir

Gwnewch fap meddwl o'ch syniadau

Busnesau Lleol



Trafodwch pa fusnesau sydd yn bodoli yn eich ardal lleol.

Ymchwiliwch i fusnesau lleol ar y rhyngwrwd neu mewn papurau newydd a chylchgronau lleol a thrafodwch pa fath o wasanaeth maent yn ei gynnig.

Cofnodwch yr holl ddata a gasglwyd ar ffurf tabl tebyg i'r isod:

Enw'r Cwmni	Cynnyrch/ Gwasanaeth	Person Cyswllt (Cynrychiolydd)	Cyfeiriad	Rhif Ffôn ac E-bost

Pa fusnes sydd yn apelio atoch fwyaf?

Pa fusnes fyddai'n dda i'ch helpu chi i sefydlu busnes o fewn yr ysgol?

Meddyliwch am gwestiynau addas ar gyfer cynrychiolydd o'ch busnes dewisol.

Tasg:

Ysgrifennwch lythyr at gynrychiolydd o gwmi lleol yn gofyn iddynt ymweld â'r ysgol. Esboniwch beth fydd bwriad yr ymweliad a soniwch am y math o fusnes yr hoffech chi ei sefydlu yn yr ysgol.

Cytunwch ar feini prawf llwyddiant gyda'ch partner/grŵp / dosbarth ar gyfer ysgrifennu llythyr.

Nod: Ysgrifennu llythyr ffurfiol

Meini Prawf Llwyddiant

Ar

ôl i


chi orffen ysgrifennu'r llythyr, cofiwch ei wirio a'i ail ddrافتio cyn ei ddanfôn at y busnes lleol.



Cynllun Busnes

Cyn myn ati i sefydlu busnes rhaid bod gennych weledigaeth glir o'r hyn yr hoffech ei sefydlu. Gelwir hyn yn gynllun busnes. Trwy ateb y cwestiynau isod fe fyddwch yn barod i greu eich cynllun busnes.

Efallai y bydd angen cyflawni'r tasgau eraill a welir yn y pecyn cyn medru ateb pob un o'r cwestiynau isod.

1. Sut byddech chi'n disgrifio eich busnes? (Gan ysgrifennu un paragraff yn unig!)
 2. Beth yw eich cynnyrch neu eich gwasanaeth?
 3. Pwy fydd eich cwsmeriaid?
 4. Ble byddwch yn lleoli'r busnes?
 5. Sut gallwch chi ddenu cwsmeriaid?
 6. A oes gennych gystadleuaeth? Pwy?
 7. Beth fydd pris y cynnyrch/y gwasanaeth?
 8. Pa gymorth sydd ei angen arnoch? Pwy fydd yn gallu estyn y cymorth yma i chi?
 9. Sut byddwch chi'n trefnu ac yn rheoli eich cyd-weithwyr?
 10. Sut byddwch chi'n cadw cyfrif o'r arian?
 11. Pwy fydd yn creu'r cynnyrch/cynnig y gwasanaeth?
 12. Pa adnoddau/offer fydd eu hangen arnoch?
 13. Faint o arian fydd ei angen arnoch i ddechrau'r busnes?
 14. Faint o elw ydych yn gobeithio ei wneud? Ystyriwch faint o gynnyrch yr hoffech ei werthu/nifer o wasanaethau posib o fewn diwrnod.
 15. Beth byddwch chi'n ei wneud gydag unrhyw elw?
 16. Faint o arian sydd angen ei fuddsoddi?
 17. Sut allwch chi sicrhau y bydd y busnes yn tyfu yn y dyfodol?
- 

Pwy ydych chi?



Wrth sefydlu busnes rhaid cynhyrchu enw ar gyfer eich cwmni fel y bydd pobl yn eich adnabod chi.

Trafodwch yr enwau canlynol. Ydych chi'n eu hoffi? Pam?

Cardiau Creadigol

Cardiau Rachel

Cynnyrch
Catrin

Ysgytlaeth Ysblennydd



Wrth feddwl am enw ar gyfer eich cwmni, ystyriwch y canlynol:





- Ydy'r cynnyrch/gwasanaeth yn amlwg yn yr enw?
- Ydy'r enw yn denu eich sylw?

Syniadau:

Pwy ydych chi?



Hŵre! 'Rydych wedi penderfynu ar enw. Nesaf mae angen i chi feddwl am logo a slogan ar gyfer eich busnes. Tybed a ydych chi'n adnabod y cwmnïau isod? Defnyddiwch y we i'ch helpu i ddarganfod enw'r busnes a'r slogan ar gyfer pob logo a welir yn y tabl isod.

Logo	Enw'r Cwmni	Slogan
		
		
		
		

Logo a slogan eich busnes chi:

Mewn Undod Mae Nerth



O fewn busnes mae'n bwysig iawn bod pob aelod yn cyfrannu a'ch bod yn gweithio fel tîm. Fel y dywed yr hen ddihareb 'Mewn undod mae nerth'. Cofiwch y bydd angen mwy nag un aelod ar gyfer rhai rolau a felly bydd angen tîm o bobl wrth y llyw.

Wrth benderfynu gyda'ch grŵp pwy fydd orau ar gyfer pob rôl, holwch y cwestiynau isod:

- Ydy unrhywun eisiau gwneud rôl arbennig?
- Os ydy mwy nag un aelod eisiau gwirfoddoli am yr un rôl, beth am iddynt esbonio i'r grŵp pam eu bod hwy yn addas ar gyfer y rôl cyn cynnal pleidlais.
- Pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer pob rôl?
- Pa sgiliau arbennig sydd gan bob aelod yn y grŵp?

Rôl	Enw/Enwau
Rheolwr Busnes	
Ymwchil i'r Farchnad	
Creadigol	
Hysbysebu	
Cyllid	
Gwerthu	

Cynnal Ymchwil i'r Farchnad



Er mwyn sicrhau bod galw am eich cynnyrch/gwasanaeth mae'n bwysig ymchwilio i'r farchnad. Mae nifer o ddulliau y medrwyd eu defnyddio er mwyn gwenudd hynny. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynnal arolwg
- Grŵpiau ffocws
- Cyfweiliadau un-i-un.

Trafodwch gyda'ch grŵp pa dull yr hoffech ei ddefnyddio (a pham) a dewiswch pwy yr hoffech gynnwys, e.e. oed arbennig? rhyw arbennig?

Ysgrifennwch restr o gwestiynau yr hoffech eu holi wrth ymchwilio i'r farchnad ac ewch ati i holi!

Yn dilyn yr ymchwil ewch ati i goladu'r ymatebion a chyflwyno'r data yn ôl eich ffurf ddewisol, e.e. siartiau cyfrif, siartiau bar neu graffiau llinell.

Dadansoddwch y data a defnyddiwch y wybodaeth i lywio eich gwaith cynllunio busnes.

Cynllun Manwl



Rydych wedi penderfynu ar eich cynnyrch/gwasanaeth.

A ydych yn ymwybodol o'r costau sydd ymhlyg yn y fenter?

Cynnyrch

Gwnewch ddiagram o'r cynnyrch gan nodi yn union pa ddefnyddiau/deunyddiau ac offer y bydd eu hangen arnoch.

Nodwch fesuriadau eich cynnyrch gan ddefnyddio'r unedau mesur cywir.

Ymchwiliwch i gostau'r deunyddiau/defnyddiau gwahanol yr hoffech eu defnyddio a gwnewch dabl yn cofnodi'r adnoddau yma. Dyma enghraifft o dabl:

Cynnyrch		
Defnyddiau/Deunyddiau	Cost ar gyfer 1	Cost ar gyfer 10

Gwasanaeth

Gwnewch restr/dabl o'r holl adnoddau y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y gwasanaeth (defnyddiau/deunyddiau ac offer).

Cofiwch gofnodi'r costau hefyd.

Cyfrifo Costau ac Elw

Cyfrifwch gost creu eich cynnyrch/eich gwasanaeth, faint byddwch yn ei godi amdano a'r elw a wnewch. Cofnodwch y wybodaeth ar ffurf tabl:

Cynnyrch/Gwasanaeth	
Costau Creu	
Pris	
Elw	

Buddsoddi

Arian! Arian! Arian!



Er mwyn sefydlu busnes yn amlwg fe fydd angen arian arnoch. Gelwir hyn yn fuddsoddi. Y gobaith yw y byddwch yn medru hawlio eich buddsoddiad yn ôl os gwnewch chi ddigon o elw.

A hoffai pob aelod fuddsoddi swm yn eich busnes?

A hoffech chi gael buddsoddwyr allanol yn eich busnes? Er enghraifft eich athro/athrawes, eich pennaeth neu'r gymdeithas rieni?

Tasg

Ewch ati i greu cyflwyniad ar gyfer buddsoddwyr allanol. Cewch ddefnyddio adnoddau amlgyfrwng i gynorthwyo'r cyflwyniad. Fe fyddai'n syniad cael prototeip (enghraifft o'ch cynnyrch) yn barod ar ddiwrnod eich cyflwyniad. Cofiwch gynnwys holl elfennau'r cynllun busnes a byddwch yn barod i ateb cwestiynau posib gan y buddsoddwyr (gweler enghreifftiau o gwestiynau posib isod).

Syniad: Cofnodwch y cyflwyniad ar ffurf sript .

Cytunwch ar feini prawf llwyddiant addas ar gyfer cyflwyniad sydd yn dwyn perswad:

Nod: Creu cyflwyniad sydd yn dwyn perswad

Meini Prawf Llwyddiant

Cwestiynau posib gan y buddsoddwyr:

Faint o elw a gewch chi gan bob cynnyrch/gwasanaeth?

A oes gennych gystadleuaeth? Pwy?

Sut bydd eich cwmni chi yn denu cwsmeriaid?

A oes rhwystrau posib?

Sut ydych chi'n gweld y cwmni'n datblygu yn y dyfodol?

Hysbysebu



Beth yw hysbebu? Mae llawer o wahanol ddulliau o hysbysebu:

- Hysbyseb (ffilm fer) ar y teledu
- Hysbyseb radio
- Hysbyseb mewn papur newydd/cylchgrawn
- Pamffled

Allwch chi feddwl am ddulliau eraill o hysbysebu? Porwch trwy wahanol hysbysebion, gwrandewch ar hysbysebion radio a gwylwch hysbysebion teledu.

Trafodwch y cwestiynau canlynol gyda'ch grŵp

- Beth sydd yn gwneud hysbyseb da?
- Pa dechnegau a ddefnyddir?
- Ydy'r iaith yn bwysig?
- Ydy'r gynulleidfa yn bwysig?

Tasg:

Ewch ati i greu hysbyseb ar gyfer eich busnes. Pa ffurf fyddai orau ar gyfer eich cwsmeriaid chi? Dyma gyfle da i chi ddefnyddio eich sgiliau TGCh.

Yn dilyn y draffodaeth flaenorol, cytunwch ar feini prawf llwyddiant cyn mynd ati i greu hysbyseb.

Nod: Creu hysbyseb a fydd yn denu cwsmeriaid

Meini Prawf Llwyddiant

--

Cyllid



Fe fydd yn bwysig eich bod yn cadw llygad ar yr arian a fydd yn cael ei wario yn ystod y broses o greu eich cynnyrch / cynnig eich gwasanaeth.

Defnyddiwch y tabl canlynol er mwyn cadw trefn ar wariant eich busnes:

Dyddiad	Buddsoddiad	Wedi Gwario	Cyfanswm

Cewch ddefnyddio'r gwagle isod i gyfrifo:



Rysait

Un syniad ar gyfer eich busnes fyddai coginio cynnyrch. Dyma rysait ar gyfer creu 20 pice ar y maen. Croeso i chi ei defnyddio.

Pice ar y Maen

Cynhwysion

450g blawd plaen

175g siwgr

1 llwy de hufen tartar

1 llwy de soda pobi

110g lard

110g margarîn

225g cwrens

2 ŵy

Siwgrwr mân (caster)

2 lwy fwrdd o ddŵr

75ml te poeth

Dull

1. Mwydych y cwrens yn y te poeth dros nos.

2. Rhowch y blawd, siwgr, hufen tartar, soda pobi, lard a'r margarîn mewn powlen. Rhwbiwch y cyfan rhwng eich bysedd nes bod y cymysgedd yn edrych fel briwsion bara.

3. Hidlwch y cwrens a'u hychwanegu at y cynhwysion eraill.

4. Curwch yr wyau a'u hychwanegu at y cymysgedd sych. Ychwanegwch ddŵr ac yna cymysgwch y cyfan yn dda a'i adael i sefyll am hanner awr.

5. Rholiwch eich cymysgedd yn ysgafn a'i torri'n gylchoedd.

6. Cynheswch y maen a rhoi ychydig o saim arno. Rhowch y pice ar y maen a'u coginio nes eu bod yn troi'n lliw euraidd ac yna eu troi. Mae'n bosib defnyddio padell ffrio i'w coginio os dymunwch.

7. Gorchuddiwch y pice gydag ychydig o siwgrwr mân a'u gadael i oeri cyn eu gweini.

Rysait

Atebwch y cwestiynau darllen a deall isod sydd wedi eu sylfaenu ar rysait pice ar y maen.

1. Ar gyfer creu 20 pice ar y maen, faint o flawd sydd ei angen?
2. Ar gyfer creu 10 pice ar y maen, faint o siwgr fyddai ei angen arnoch?
3. Petaech eisiau cogonio 40 pice ar y maen, faint o flawd fyddai ei angen arnoch?
4. Ar ôl gosod y pice ar y maen, sut gwyddoch chi eu bod yn barod?
- 5.

Darllenwch y detholiad canlynol.

Rhowch y brawd, siwgr, hufen tartar, soda pobi, lard a'r margarîn mewn powlen. Rhwbiwch y cyfan rhwng eich bysedd nes bod y cymysgedd yn edrych fel briwsion bara.

Tanlinellwch y berfau gorchmynnol (2)

6. Rhifwch y canlynol o 1 i 5 yn ôl eu trefn cronolegol

Curwch yr wyau a'u hychwanegu at y cymysgedd sych.

Gorchuddiwch y pice gydag ychydig o siwgr mân.

Mwydwch y cwrens yn y te poeth dros nos.

Rholiwch eich cymysgedd yn ysgafn a'i torri'n gylchoedd.

Cynheswch y maen a rhoi ychydig o saim arno.

7. Ar ôl i chi ychwanegu dŵr at y cymysgedd a'i gymysgu'n dda, am faint o funudau mae angen i chi aros?
8. Os nad oes gennych maen, pa offeryn arall y gallwch ei ddefnyddio?
9. Petaech chi'n gwerthu 1 pice ar y maen am 20c, beth byddai cyfanswm yr arian byddech chi'n ei godi gan ddilyn y rysait hon?
10. Pa offer coginio fyddai eu hangen arnoch er mwyn creu pice ar y maen? Nodwch 3.



Cyfarwyddiadau

Ysgrifennwch gyfarwyddiadau ar gyfer creu eich cynnyrch.

Cofiwch ddefnyddio

- Trefnolion (Yn gyntaf, yn ail, wedyn, nesaf, yn olaf)
- Berfau yn eu ffurf orchmynnol—berfau sy'n gorffen ag -wch!



Gwerthuso

Hwre! 'Rydych wedi llwyddo i gynnal ffair fusnes ar gyfer eich cynnyrch/gwasanaeth.

Ewch ati i werthuso'r broses. Ystyriwch y canlynol wrth werthuso

- Beth oedd cryfderau eich busnes?
- A oedd gwendidau? Sut allwch newid y gwendidau er mwyn gwella?
- Beth ddysgoch chi o'r broses?
- Petaech chi'n creu busnes newydd, beth byddech chi'n ei wneud yn debyg neu'n wahanol y tro nesaf?